

Cofion

Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddiâu heddiw eto. Cafodd Bronwen Williams (Cefn Berain) lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos ddiwethaf, ac yno hefyd y mae Dilys Jones (Nantglyn), a Selwyn Davies (Cefn Meiriadog). Mae Beryl Jones (Nantglyn) wedi cael ei symud i Ysbyty Rhuthun, a Peter Jones (Groes) wedi mynd i'r Inffirmari. Yno'n parhau hefyd y mae Gwyn H. Davies (Hiraethog). Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan weddio ar iddynt gael profi cwmni'r Iesu mewn ffordd arbennig y dyddiau hyn. Gweddiwn y bydd pob un arall o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd yn cael adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Cymorth i'r Ffoaduriaid

Diolch am yr holl nwyddau a gyfrannwyd gennych i'r ffoaduriaid ac am yr arian sydd eisoes wedi dod i law. Os oes unrhyw un arall yn dymuno cyfrannu'n ARIANNOL, ein bwriad yw anfon yr arian i *Tearfund* sy'n gweithio trwy rwydwaith o eglwysi yn y gwledydd sydd wedi eu heffeithio, a hefyd gydag eglwysi yn Ewrop er mwyn cynnig gofal, cefnogaeth a chymorth i'r rhai sydd wedi ffoi ac sydd mewn angen mawr. Os dymunwch gyfrannu, fedrwch chi ddychwelyd yr amlenni melyn (Apêl Argyfwng – *Tearfund*) i Mair **erbyn dydd Sul nesaf, Hydref 25ain** gan wneud unrhyw siec yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', os gwelwch yn dda? Diolch am eich cefnogaeth.

beibl.net



Ar Dachwedd 1af, cyhoeddir dau Feibl fel rhan o brosiect beibl.net.

Mae fersiwn llawn o'r Beibl ar gael, yn ogystal â Beibl lliw newydd i blant sy'n cynnwys 365 o storïau – pob un ohonynt gyda llun lliw llawn a thestun o beibl.net. Pris y ddau Feibl fydd £14.99 yr un, ond gellir cael gostyngiad am bob archeb fydd wedi dod i law erbyn diwedd Hydref. Felly, os am archebu copi **am £10 yr un**, gadewch i Mair wybod **erbyn Hydref 26ain**, os gwelwch yn dda.

I ddo

- **“GWISGO MERCH AR DRAWS Y BYD”** Un o'r syniadau a gafwyd trwy gyflwyniad Sarah Morris (Rhaglen Dorcas) yng Nghyfarfod Chwiorydd yr Henaduriaeth yn Henllan yn ddiweddar oedd y byddai darparu dilledyn newydd 'yn rhodd heb ei ail' i blant mewn angen ar draws y byd. Bwriedir cael noson yn Festri Llansannan nos Wener, Tachwedd 13eg i ddechrau ar y prosiect o bwytho ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd), ac i weu tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn. Mwy o fanylion y tro nesaf. Croeso i bawb o bob oed!

Darlleniad Wythnos Nesaf

1 Samuel 2:1-6 (BCND tud.249 / BCN: tud.227)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18^{fed} Hydref 2015

Darlleniad y Dydd

Haggai 1: 1-6

(BCND tud.856 / BCN: tud.781)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da! Mae'n gyfnod anghyffredin o braf, yr Hydref yn mynd rhagddo a chyfnod y cyfarfodydd diolchgarwch yn ei anterth. 'Diolch' fydd yn ein calonnau wrth i ni gyd-gyfarfod heddiw, a llawenydd wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn a chael golwg ar fawredd Duw a gogoniant Iesu yn ei holl ymwneud hefo ni. 'Boed fy mywyd oll yn ddiolch' meddai Williams (CFF 713), ac fe fyddem yn dymuno gallu dweud 'amen' i hynny'n siŵr.

Mae'r darlleniad heddiw yn siŵr o'n sobri fel y gwnaeth y penawdau diweddar am wersyll y ffoaduriaid yn Calais, Ffrainc. Aeth y rhaglen "Songs of Praise" yno i ffilmio a thynnu sylw at y ffaith fod y ffoaduriaid – cyn adeiladu cartref dros dro i'w hunain – wedi adeiladu eglwys o goed a deunyddiau! Dyma oedd y pennawd: "Songs of Praise in Calais: 'the migrants wanted a church before a home'"

Mae'n anodd i ni ddirnad angen a phrofiad y ffoaduriaid ond tybed a fedrwn ddeall yr angen dwfn i adeiladu mangre cysegredig ynghanol y dioddefaint er mwyn cael lle i gyfarfod hefo Duw a lle i weddio? A fyddai hyn yn cael y flaenoriaeth gennym ni fel yn hanes y ffoaduriaid? Cristnogion o Affrica, o wledydd Ethiopia ac Eritrea a adeiladodd yr eglwys ryfeddol hon sy'n tystio mor glir i'w ffydd ac i'w blaenoriaethau. Mae'r adnodau heddiw, a phresenoldeb yr eglwys hon yn Calais, yn ein herio i ystyried beth sy'n dod yn gyntaf i ni – adeiladu ein tai ein hunain yntau tŷ yr Arglwydd.

Diolch i bawb a gyfrannodd fwyd a dillad ar gyfer casgliad y Fro. Cefais y fraint o'u trosglwyddo'r wythnos hon i'r cludwyr a gobeithio y byddant o fendith i'r rhai a fydd yn eu derbyn.

Mae Iesu'n dweud yr un peth wrthon ni pan y mae'n dweud wrthym am 'geisio teyrnas Dduw a'i gyfiawnder' yn gyntaf, ac fe fydd popeth arall sydd ei angen arnom yn siŵr o ddilyn. (Mathew 6:33) Mae hyn yn gysur i ni sef fod ein Tad nefol yn gwybod am ein anghenion ac yn medru diwallu ein anghenion, dim ond i ni ei roi o yn gyntaf yn ein bywydau a cheisio ei gyfiawnder Ef.

Ar ein rhan, llawenydd ydi dymuno bendith Duw i Gwion a Sarah hefyd wrth iddynt briodi a chychwyn eu bywyd ynghyd fel gŵr a gwraig. Rydym wedi dod i'w hadnabod yn rhwydd, a braf fydd cael gweld y ddau yn cartrefu yn Heulfryn ar ôl dod yn ôl o'u mis mêl.

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

Anwain

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 18^{fed}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 20^{fed}
- **Cyfarfod Chwirydd Bro Aled** yng Nghapel Saron am 7.30 yng nghwmni Mrs Dilys Hughes, Trefnant.
- Iau – 22^{ain}
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
 - **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 23^{ain}
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 25^{ain}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 18^{fed}
- Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mercher – 21^{ain}
- Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Capel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.00 gyda'r Parch. Brian Huw Jones yn pregethu.
- Iau – 22^{ain}
- Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Cefn Meiriadog am 7.00 gyda'r Parch. Hywel Edwards yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 25^{ain}
- Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch Teuluol i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00 yng nghwmni'r Parch. John Derek Rees.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 18^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi ar y thema Diolchgarwch yn Llanefydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00.
- Llun – 19^{eg}
- Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch gan blant yr ysgol yng Nghapel Llanefydd am 10.30 y bore.
- Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Cefn Berain am 7.00 gyda Mrs Nia Royles yn annerch. Bydd paned i bawb i ddilyn.
- Mercher – 21^{ain}
- Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch Llanefydd am 7.00 pryd y bydd Aneurin yn pregethu.
- Sul nesaf – 25^{ain}
- Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma – 18^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith am 10.00 pryd y bydd Alan a Nerys Morgan yn cyflwyno Caron Lewis i gael ei fedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Llun – 19^{eg}
- Cynhelir Noson Agoriadol Cymdeithas Llansannan gydag eitemau gan barti Cytgan Clwyd yn y Ffestri am 7.30.
- Sul nesaf – 25^{ain}
- Bydd y Parch. Dewi Tudur yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 18^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Nantglyn am 2.00 pryd y bydd Rhys a Helen Edmunds yn cyflwyno Gwilym Arthur i gael ei fedyddio.
- Sul nesaf – 25^{ain}
- Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch i'r daith yn Nantglyn am 2.00 yng nghwmni Mrs Nia Royles.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 18^{fed}
- Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 25^{ain}
- Bydd y Parch. Dewi Tudur yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 18^{fed}
- Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Gwener – 23^{ain}
- Cynhelir Cyfarfod Diolchgarwch Capel y Groes am 7.00 gyda'r Parch. Hugh Pritchard yn pregethu.
- Sul nesaf – 25^{ain}
- Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.